OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2005 Rhif 1224 (Cy.82)

BWYD, CYMRU

Rheoliadau Bwyd â Ffytosterolau neu Ffytostanolau Ychwanegol (Labelu) (Cymru) 2005

Wedi'u gwneud - -	*26 Ebrill 2005*
Yn dod i rym - -	*30 Ebrill 2005*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 16(1)(e) ac (f), 17, 26(1) a (3) a 48(1) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990(**1**) ac sydd bellach wedi'u breinio ynddo(**2**), ar ôl rhoi sylw yn unol ag adran 48(4A) o'r Ddeddf honno i gyngor perthnasol a roddwyd gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd ac ar ôl ymgynghori yn unol ag Erthygl 9 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor(**3**) sy'n gosod egwyddorion a gofynion cyffredinol cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn gosod gweithdrefnau o ran materion diogelwch bwyd, yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Bwyd â Ffytosterolau neu Ffytostanolau Ychwanegol (Labelu) (Cymru) 2005; deuant i rym ar 30 Ebrill 2005 a maent yn gymwys o ran Cymru yn unig.

Dehongli

2.—(1) Yn y Rheoliadau hyn —

mae "bisgedi" ("*biscuits*") yn cynnwys wafferi, bisgedi caled, bara ceirch a bara croyw;

ystyr "Cyfarwyddeb 2000/13" ("*Directive 2003/13*") yw Cyfarwyddeb 2000/13/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor(**4**) ar gyd-ddynesiad cyfreithiau'r Aelod-wladwriaethau ynghylch labelu, cyflwyno a hysbysebu bwydydd, fel y'i diwygiwyd gan ddiwygiadau hyd at a chan gynnwys y rheini a effeithir gan Gyfarwyddeb 2003/89/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor(**5**).

ystyr "cyffaith blawd" ("*flour confectionery*") yw unrhyw fwyd wedi'i goginio sy'n barod i'w fwyta heb ei baratoi ymhellach (heblaw ei aildwymo), y mae grawn mâl yn gynhwysyn

(**1**) 1990 p. 16.
(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau yr Ysgrifennydd Gwladol i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) fel y'i darllenir gydag adran 40(3) o Ddeddf Safonau Bwyd 1999 (1999 p.28).
(**3**) OJ Rhif L31, 1.2.2002, t.1. Diwygiwyd y Rheoliad hwnnw ddiwethaf gan Reoliad (EC) Rhif 1642/2003 Senedd Ewrop a'r Cyngor (OJ Rhif L245, 29.9.2003, t.4).
(**4**) OJ Rhif L109, 6.5.2000, t.29, fel y mae wedi'i gywiro gan Gywiriad (OJ Rhif L124, 25.5.2000, t.66).
(**5**) OJ Rhif L308, 25.11.2003, t.15.

sy'n nodweddiadol ohonno, gan gynnwys teisen frau, sbynjis, cramwyth, myffins, macarwns, rataffias, crwst a chasys crwst, ac mae'n cynnwys hefyd meringues, petits fours a chrwst a chasys crwst sydd heb eu coginio, ond nid yw'n cynnwys bara, pitsas, bisgedi, tafelli cras, bara gwastad allwthiedig nac unrhyw fwyd sy'n cynnwys llenwad y mae unrhyw gaws, cig, syrth, pysgod, pysgod cregyn, deunydd protein llysieuol neu ddeunydd protein microbig yn gynhwysyn ynddo;

ystyr "cynnyrch cyffaith" ("*confectionery product*") yw unrhyw eitem o gyffaith siocled neu gyffaith siwgr;

ystyr "cynnyrch cyffaith ffansi" ("*fancy confectionery product*") yw unrhyw gynnyrch cyffaith ar ffurf ffigwr, anifail, sigarét, neu wy neu ar unrhyw ffurf ffansi arall;

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Diogelwch Bwyd 1990;

mae "gwerthu" ("*sell*") yn cynnwys cynnig neu ddangos rhywbeth i'w werthu ac mae'n cynnwys cael rhywbeth yn eich meddiant i'w werthu, a rhaid deall "gwerthiant" ("*sale*") yn unol â hynny;

mae "iâ bwytadwy" ("*edible ice*") yn cynnwys hufen iâ, iâ dŵr a iâ ffrwythau, p'un ai ar ei ben ei hun neu mewn cyfuniad, ac unrhyw fwyd tebyg;

ystyr "y manylion allweddol" ("*the key particulars*") yw'r manylion hynny a bennir yn eitemau 1 a 5 yn ail is-baragraff Erthygl 2 o Reoliad 608/2004;

ystyr "y manylion penodedig" ("*the specified particulars*") yw'r manylion sy'n ofynnol gan Erthygl 2 o Reoliad 608/2004.

mae "paratoi" ("*preparation*") o ran bwyd yn cynnwys gweithgynhyrchu ac unrhyw fath o brosesu neu drin;

ystyr "Rheoliad 608/2004" ("*Regulation 608/2004*") yw Rheoliad (EC) Rhif 608/2004(**6**) ynghylch labelu bwydydd a chynhwysion bwyd â ffytosterolau, esterau ffytosterol, ffytostanolau a/neu esterau ffytostanol ychwanegol; ac

ystyr "wedi'i ragbacio i'w werthu'n uniongyrchol" ("prepacked for direct sale") yw —

(a) o ran bwyd heblaw cyffaith blawd, bara ac iâ bwytadwy, wedi'i ragbacio gan fân-werthwr er mwyn i'r mân-werthwr hwnnw ei werthu yn y fangre lle y mae'r bwyd yn cael ei bacio neu o gerbyd neu o stondin a ddefnyddir gan y mân-werthwr hwnnw, a

(b) o ran cyffaith blawd, bara ac iâ bwytadwy, wedi'i ragbacio gan fân-werthwr i'w werthu fel yn is-baragraff (a) o'r diffiniad hwn, neu wedi'i ragbacio gan gynhyrchydd y bwyd er mwyn i gynhyrchydd y bwyd ei werthu naill ai mewn mangre lle y cynhyrchwyd y bwyd neu mewn mangre arall y mae'r cynhyrchydd bwyd yn cynnal ei fusnes ohoni o dan yr un enw â'r busnes sy'n cael ei gynnal mewn mangre lle y mae'r bwyd yn cael ei gynhyrchu.

(2) Ystyrir bod bwyd wedi'i ragbacio at ddibenion y Rheoliadau hyn—

(a) os yw'n barod i'w werthu i'r defnyddiwr olaf neu i fasarlwywr, a

(b) os yw —

(i) wedi'i roi mewn pecyn cyn cael ei gynnig i'w werthu yn y fath ffordd ag i beidio â chaniatáu newid y bwyd, p'un a yw'r bwyd wedi'i amgáu'n gyfan gwbl neu'n rhannol yn unig, heb agor neu newid y pecyn, neu

(ii) wedi'i amgáu'n gyfan gwbl mewn pecyn cyn cael ei gynnig i'w werthu a bwriedir iddo gael ei goginio heb agor y pecyn,

ond ni fernir bod bwyd wedi'i ragbacio at ddibenion y Rheoliadau hyn os yw'n cynnwys melysyn neu siocled sydd wedi'i lapio'n unigol ac nad yw wedi'i amgáu mewn unrhyw becyn ychwanegol, ac nad yw wedi'i fwriadu ar gyfer ei werthu fel eitem unigol.

(**6**) OJ Rhif L97, 1.4.2004, t.44.

(3) Mae i ymadroddion Saesneg eraill a'r ymadroddion Cymraeg cyfatebol a ddefnyddir yn y Rheoliadau hyn ac yng Nghyfarwyddeb 2000/13 yr un ystyr yn y Rheoliadau hyn ag sydd iddynt yn y Gyfarwyddeb honno.

Tramgwyddau a chosb

3. Yn ddarostyngedig i reoliad 4, os bydd unrhyw berson —

(a) yn gwerthu unrhyw fwyd y mae gofynion labelu Rheoliad 608/2004 yn gymwys o'i ran ac nad yw wedi'i labelu â'r manylion penodedig, neu

(b) yn gwerthu unrhyw fwyd nad yw wedi'i labelu yn unol â rheoliad 5, 6 neu 7,

bydd yn euog o dramgwydd ac yn agored ar gollfarn ddiannod i ddirwy nad yw'n fwy na lefel 5 ar y raddfa safonol.

Esemptiad

4. Yn achos —

(a) bwyd sydd heb ei ragbacio,

(b) bwyd sydd wedi'i ragbacio i'w werthu'n uniongyrchol, neu

(c) unrhyw gynnyrch cyffeithiol ffansi sydd wedi'i lapio'n unigol ac nad yw wedi'i amgáu mewn unrhyw becyn pellach sydd wedi'i fwriadu ar gyfer ei werthu fel eitem unigol,

nid oes angen labelu'r bwyd hwnnw ag unrhyw rai o'r manylion penodedig heblaw'r manylion allweddol.

Dull labelu: gofyniad cyffredinol

5. Pan werthir unrhyw fwyd heblaw bwyd y mae rheoliad 6 yn gymwys iddo, mae unrhyw fanylion y mae'n ofynnol eu rhoi ar label y bwyd gan Reoliad 608/2004 i ymddangos —

(a) ar y pecyn,

(b) ar label sydd ynghlwm wrth y pecyn, neu

(c) ar label y gellir ei weld yn eglur drwy'r deunydd pecynnu,

ac eithrio pan werthir y bwyd hwnnw i unrhyw un heblaw'r defnyddiwr olaf, caiff y manylion hyn fel arall ymddangos ar y dogfennau masnachol ynglyn â'r bwyd yn unig, os oes modd gwarantu bod y dogfennau hynny sy'n cynnwys y manylion hyn i gyd, naill ai gyda'r bwyd y maent yn ymwneud ag ef neu wedi cael eu hanfon cyn i'r bwyd gael ei ddanfon, neu'r un pryd â hynny.

Dull labelu: rheolau arbennig

6.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys i'r canlynol —

(a) bwyd sydd heb ei ragbacio;

(b) bwyd sydd wedi'i ragbacio i'w werthu'n uniongyrchol; ac

(c) unrhyw gynnyrch cyffeithiol ffansi sydd wedi'i lapio'n unigol ac nad yw wedi'i amgáu mewn unrhyw becyn arall ac y bwriedir ei werthu fel eitem unigol.

(2) Pan fydd unrhyw fwyd y mae'r rheoliad hwn yn gymwys iddo yn cael ei werthu i'r defnyddiwr olaf, rhaid i'r manylion allweddol y mae Rheoliad 608/2004 yn ei gwneud yn ofynnol eu rhoi ar label y bwyd, fel y'i darllenir ynghyd â rheoliad 4, ymddangos —

(a) ar label sydd ynghlwm wrth y bwyd, neu